

A55, Gwella ffordd Abergwyngregyn i Dai'r Meibion

Bwletin y Prosiect: Mawrth 2021



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GRIFFITHS

civil engineering and construction

Cyflwyniad

Mae Griffiths wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru i ymgymryd â gwaith gwella ar yr A55 yn Abergwyngregyn, Gwynedd. Bydd y cytundeb Dylunio ac Adeiladu yn gwella diogelwch ar hyd pellter o 2.2km o'r ffordd ddeuol, rhwng Cyffordd 12 a 13, drwy gael gwared ar fannau mynediad uniongyrchol ar yr A55. Bydd wyth bwllch yn y lleiniau canol sydd ar hyn o bryd yn caniatáu i gerbydau amaethyddol araf groesi'r A55 hefyd yn cael ei dynnu. Bydd y Prosiect yn cynnwys dros bedwar cilomedr o gyfleusterau teithio llesol gwell i annog beicio a cherdded, cefnogi egwyddorion cymdeithas carbon isel. Trwy wellhau y system ddraenio presennol bydd hefyd yn darparu gwelliannau atal llifogydd a gwytnwch ar yr A55.

Diweddariad Gwaith

Dechreuwyd y gwaith adeiladu yn yr Hydref 2020, wrth sefydlu compownd y Safle. Oherwydd lleoliad y compownd a'r gwaith cysylltiedig, mae llwybr cyhoeddus rhif 9 wedi cael ei ddargyfeirio dros dro ac mae'r llwybr newydd wedi'i arwyddo'n glir. Mae'r gwaith ar y Ffordd Sirol newydd, sydd bellach i'w weld yn glir ar gyfer yr A55, yn mynd rhagddo'n dda gyda'r gwaith o glirio'r safle bron wedi'i gwblhau.

Dyddiadau allweddol

Adeiladu Ffordd Sirol	Mis Hydref 2020 i fis Mai 2021
Gwaith ar yr A55 Tua'r Dwyrain	Mis Mai 2021 i fis Medi 2021
Gwaith ar yr A55 Tua'r Gorllewin	Mis Medi 2021 i fis Chwefror 2022
Gorffen Gwaith y Ffordd Sirol	Mis Chwefror 2022 i fis Mawrth 2022



Eisiau cysylltu â ni?

Eich Swyddog Cyswllt Cyhoeddus ymroddedig ar gyfer y Prosiect A55, Gwella ffordd Abergwyngregyn i Tai'r Meibion yw Mandy Evans. Gellir cysylltu â hi rhwng 8yb a 6yh, dydd Llun i ddydd Gwener. Y tu hwnt i'r oriau hyn, neu os nad yw Mandy'n gallu ateb, gadewch neges a daw yn ôl atoch.

Ff: 03300412185

E: mandy.evans@alungriffiths.co.uk

community.alungriffiths.co.uk

Buddion Cymunedol

Mae ein tîm Prosiect bob amser yn awyddus i gefnogi achosion da cenedlaethol a lleol a hyd yma maent wedi cefnogi tair menter codi arian. Y gyntaf oedd 'Movember' gyda saith aelod o dîm y Prosiect yn codi £635 i'r elusen Men's Health wrth dyfu mwstachis rhagorol!

Gan fod Covid-19 wedi dylanwadu ar y ffordd y gall elusennau godi arian dewisodd y Tîm Prosiect gefnogi Apêl y Pabi eleni trwy werthu blodau Pabi ar y safle yn ogystal ag ar safleoedd Griffiths eraill ledled Gogledd Cymru. Llwyddodd y fenter hon i godi £197.50 at yr achos teilwng iawn.

I gloi 2020 rhoddodd Tîm y Prosiect rodd fawr o fwyd i Fanc Bwyd Arfon.



Ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth am Prosiect A55, Gwella Ffordd Abergwyngregyn i Tai'r Meibion:

<https://community.alungriffiths.co.uk/a55-abergwyngregyn-to-tair-meibion-improvements/>

Os hoffech danysgrifio i dderbyn cylchlythyrau yn y dyfodol drwy e-bost, cofrestrwch ar ein gwefan:

<https://community.alungriffiths.co.uk/a55-abergwyngregyn-to-tair-meibion-improvements/project-bulletins/>

Byddem yn falch o glywed eich sylwadau. Gallwch gysylltu drwy ein safle gwe community.alungriffiths.co.uk neu drwy gysylltu â'r Swyddog Cyswllt Cyhoeddus Mandy Evans ar 03300412185

Bydd galwadau i'r rhif yma yn costio gyfradd genedlaethol galwadau ac yn cael ei cynnwys mewn cynllun munudau o llinellau ffon a ffonau symudol.



Dilynwch ni ar Twitter @AlunGriffiths_